CIWB

## Tasg 2

# Beth sy yn eich ardal chi?

1. Beth sy yn ...?
   Rhestrwch beth sy yn y lleoedd.

| Aberaeron | Y Drenewydd | Trefdraeth | Wrecsam | Llanelli |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

2. Cymharwch eich rhestri.

3. Beth am eich ardal chi? Atebwch y cwestiynau yn yr holiadur ardal ar y dudalen nesaf.

| Geirfa | |
|---|---|
| rhestru | to list |
| rhestri | lists |
| cymharu | to compare |
| ardal | area |
| holiadur | questionnaire |
| hen | old |
| gweddol | pretty good |
| adeiladau | buildings |
| diddorol | interesting |
| pobl ifanc | young people |
| pethau | things |
| dim byd | nothing |
| bywiog | lively |

CIWB

# HOLIADUR ARDAL

1. Oes parc yn yr ardal?

a. Oes, llawer.
b. Oes – un neu ddau.
c. Nac oes, does dim parc yma.

Gwybodaeth arall, e.e. Faint? Enwau? Ble?

2. Oes sinema yn yr ardal?

a. Oes, mae sinema fodern yma.
b. Oes – mae hen sinema yma.
c. Nac oes, does dim sinema yma.

Gwybodaeth arall e.e. Faint? Enwau? Ble? Pa fath o ffilmiau?

3. Oes canolfan hamdden yn yr ardal?

a. Oes, mae canolfan hamdden wych yma.
b. Oes – mae canolfan hamdden weddol yma.
c. Nac oes, does dim canolfan hamdden yma.

Gwybodaeth arall e.e. Faint? Enwau? Ble? Beth sy yno?

4. Oes canolfan siopa yn yr ardal?

a. Oes, mae canolfan siopa fodern yma gyda llawer o siopau mawr.
b. Oes – mae canolfan siopa weddol yma.
c. Nac oes, does dim canolfan siopa yma.

Gwybodaeth arall e.e. Faint? Enwau? Ble? Pa siopau sy yno?

5. Oes adeiladau diddorol yn yr ardal?

a. Oes, mae llawer o adeiladau diddorol yma.
b. Oes – mae rhai adeiladau diddorol yma.
c. Nac oes, does dim adeiladau diddorol yma.

Gwybodaeth arall e.e. Faint? Enwau? Ble? Beth ydyn nhw?

6. Pa un sy'n gywir?

a. Mae llawer o bethau i bobl ifanc yma.
b. Mae rhai pethau i bobl ifanc yma.
c. Does dim byd i bobl ifanc yma.

Gwybodaeth arall e.e. Beth? Ble?

7. Pa ansoddeiriau sy'n disgrifio'r ardal?

a. cyffrous a bywiog
b. diddorol a hardd
c. diflas ac ofnadwy

Gwybodaeth arall e.e. Pam?

8. Sut ydych chi'n teimlo?

a. Dw i wrth fy modd yn byw yma.
b. Mae'r ardal yn iawn.
c. Mae'n gas gen i'r ardal. / Mae'n gas gyda fi'r ardal.

Gwybodaeth arall e.e. Pam?

4. Mae'r ysgol yn gwneud gwefan am yr ardal.
Ysgrifennwch ddarn am eich ardal chi.

- Dwedwch beth sy yn yr ardal – Beth? Ble? Faint? + gwybodaeth arall
- Disgrifiwch y pethau yma.
- Disgrifiwch yr ardal – mae'n …
- Rhowch eich barn am yr ardal.

5. Chwarae rôl:

Partner 1: Rydych chi'n byw ym Mhatagonia ac rydych chi'n meddwl dod i'r ardal ar wyliau.
Rydych chi'n ffonio Partner 2 i ofyn cwestiynau am yr ardal.

Partner 2: Atebwch gwestiynau Patrner 1.

Dyma ychydig o help i chi:

Oes … yn …? Ble mae …? Ble mae'r …?

Beth ydy … Pa fath o … sy yn …?

Beth mae … yn hoffi gwneud? Beth mae pobl yn gallu gwneud yn …?

| Geirfa | |
|---|---|
| gwefan | website |